Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Peilot Arolwg Llais y Dysgwr: Adroddiad Penawdau

Cynhyrchwyd gan IFF Research

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd | This document is also available in English

www.medr.cymru



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1.1. Fel corff sy'n ariannu ac yn rheoleiddio addysg drydyddol yng Nghymru, rhan o rôl Medr yw sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn cynnig cyrsiau o ansawdd da ac yn cefnogi dysgwyr yn effeithiol.

1.2. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, comisiynwyd IFF Research i gynnal Arolwg Llais y Dysgwr (LVS). Unwaith y bydd hwn yn cael ei lansio, bydd yr arolwg yn rhoi cyfle i ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach, prentisiaethau ac addysg oedolion yn y gymuned leisio eu barn am eu profiadau dysgu. Y nod yw cefnogi ymdrechion darparwyr addysg a hyfforddiant unigol i wella'n barhaus, yn ogystal â chefnogi Estyn yn ei rôl arolygu, gan hefyd ddarparu tystiolaeth i alluogi Medr i gyflawni ei gyfrifoldebau rheoleiddiol.

1.3. Roedd y cynllun peilot hwn yn gyfle i dreialu holiadur yr arolwg a phrofi'r broses o gynnal yr arolwg a chanlyniadau'r ymchwil gyda darparwyr addysg a hyfforddiant. Ceir gwybodaeth lawn am ganlyniadau a gwersi'r cynllun peilot mewn Adroddiad Technegol ar wahân. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg peilot.

Methodoleg

1.4. Cynhaliwyd gwaith maes y cynllun peilot rhwng 16 Ebrill a 27 Mai 2026.

1.5. Cynlluniwyd y cynllun peilot fel 'ymarfer cyffredinol' ar gyfer gweithredu'r arolwg llawn, er mwyn caniatáu i'r holl ddeunyddiau a phrosesau gael eu profi cyn y cyflwyniad ehangach yn 2026/27. Yn benodol, nod y cynllun peilot oedd profi sut y byddai'r arolwg yn cael ei gyflwyno'n ymarferol; asesu a yw'r arolwg yn gweithio'n effeithiol ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr a mathau o ddarparwyr; profi prosesau cysylltu data a phwysoli; a gwerthuso a mireinio'r allbynnau adrodd.

1.6. Roedd sampl yr arolwg peilot yn cynnwys wyth darparwr a wirfoddolodd i gefnogi'r cynllun peilot; roedd pedwar ohonynt yn golegau Addysg Bellach, dau yn ddarparwyr prentisiaethau, a dau yn ddarparwyr dysgu cymunedol i oedolion.

1.7. Rhannwyd yr arolwg â dysgwyr drwy'r darparwyr a oedd yn cymryd rhan. Cafodd y darparwyr weminar i egluro'r broses, pecyn i ddarparwyr, a deunyddiau hyrwyddo ategol i helpu i sicrhau cymaint o ymatebion â phosibl gan eu dysgwyr.

1.8. Fel y dangosir yn Tabl 1 isod, cwblhawyd cyfanswm o 4,459 o arolygon safonol ar draws wyth darparwr, tra cwblhaodd 338 o ddysgwyr eraill fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r arolwg. Mae'r arolwg Hawdd ei Ddeall yn fersiwn amgen a gynlluniwyd i fod yn fwy hygyrch. Mae hwn yn defnyddio iaith syml, fformatio clir, a delweddau neu symbolau ategol i helpu dysgwyr sydd ag anawsterau darllen neu anghenion dysgu ychwanegol. Roedd modd cwblhau pob fersiwn o'r holiadur ar-lein neu drwy ddefnyddio fersiwn papur. Yn gyffredinol, cwblhawyd 31 o arolygon safonol ar bapur, a 111 o arolygon Hawdd eu Deall drwy'r dull hwn.


1.9. Dosbarthwyd 394 o arolygon papur, a chwblhawyd a dychwelwyd 142 ohonynt (cyfradd ymateb o 36%).

1.10. Yn gyffredinol, cwblhawyd 52 o arolygon yn yr iaith Gymraeg.

Tabl 1. Nifer yr arolygon sy'n cael eu cwblhau yn ôl math


Cyfanswm yr Arolygon a Gwblhawyd		**4,797**
Math o Arolwg	Arolwg Safonol	4,459
	Arolwg Hawdd ei Ddeall	338
Iaith yr Arolwg	Cymraeg	52
	Saesneg	4,745
Dull yr Arolwg	Ar-lein	4,655
	Papur	142

Ffigur 1. Yr arolygon papur a gwblhawyd yn ôl math



1.11. I'r rhai oedd yn cwblhau'r arolwg ar-lein, roedd modd cyrchu'r arolwg naill ai drwy ddolen agored (gan bob darparwr) neu drwy god QR. Roedd pob darparwr ac eithrio un wedi rhannu'r arolwg â'r dysgwyr drwy e-bost, gan gynnwys y ddolen i'r arolwg. Ni ddefnyddiodd dau ddarparwr godau QR. Cwblhaodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr (65%) yr arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen safonol. Cwblhaodd mwy na thraean (35%) yr arolwg drwy god QR (a oedd fel arfer yn cael ei arddangos yn y dosbarth).

Ffigur 2 Yr arolygon a gwblhawyd ar-lein yn ôl y ffynhonnell a ddefnyddiwyd i'w hagor



1.12. Gofynnwyd i ddysgwyr a gwblhaodd yr arolwg gyflwyno eu rhif adnabod y dysgwr, a ddyrannwyd gan y darparwr. Y nod oedd cynnal 'cyfateb byw' yn ystod yr arolwg â data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Pan oedd y broses gyfateb hon yn llwyddo roedd yn golygu nad oedd angen i ddysgwyr ateb cwestiynau demograffig, ac y gellid gofyn cwestiynau iddynt am gyrsiau penodol. Yn gyffredinol, cafodd 90% o'r dysgwyr a ddefnyddiodd god QR eu cyfateb â'r LLWR, yn ogystal ag 81% o'r rhai a ddefnyddiodd y ddolen i'r arolwg.

Dehongli’r canfyddiadau hyn

1.13. Canfyddiadau o gynllun peilot yw'r rhain, ac maen nhw’n seiliedig ar sampl gyfyngedig o ddysgwyr mewn wyth darparwr. Nid ydynt yn gynrychioliadol ar lefel genedlaethol ac, am fod y cyfraddau ymateb yn isel ac oherwydd ystyriaethau data eraill (a drafodir yn yr adroddiad technegol), mae rhai cyfyngiadau i’w cael hefyd o ran yr amrywiaeth a arolygwyd o fewn y darparwyr. Felly, dylid dehongli'r canlyniadau gyda gofal.

1.14. Gan fod y canfyddiadau hyn yn deillio o gynllun peilot, maent yn seiliedig ar gwestiynau a oedd yn cael eu treialu, a bydd y rhain yn cael eu mireinio ar gyfer arolwg y prif gam. Er enghraifft, disgwylir y bydd cwestiynau ynghylch dewisiadau iaith yn cael eu mireinio oherwydd nifer uchel o ymatebion 'Ddim yn gwybod' – ffaith sy'n dangos bod angen mwy o eglurder.

1.15. Ystyrir canlyniadau'r arolwg safonol a'r canlyniadau yn y fformat hawdd ei ddeall yn eu tro, o fewn pob adran.

Canfyddiadau’r arolwg


Crynodeb

1.16. Roedd boddhad y dysgwyr yn uchel iawn ac roedd dysgwyr yn tynnu sylw at ansawdd yr addysgu, y cymorth dysgu, a'u hamgylchedd dysgu fel cryfderau allweddol. Roedd y rhan fwyaf o’r dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu, eu cefnogi, eu diogelu a’u parchu, ac yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch eu cynnydd a datblygiad eu medrau yn y dyfodol. Cyfeiriodd rhai dysgwyr at strwythur y cwrs a’r cyfathrebu fel meysydd i’w gwella, tra bod arweiniad yn ymddangos ychydig yn wannach hefyd nag agweddau eraill o brofiad y dysgwr.

Boddhad cyffredinol

1.17. Fel y dangosir yn Ffigur 3. Boddhad cyffredinol, roedd y boddhad â darparwyr yn eithriadol o uchel. Roedd naw allan o ddeg ymatebwr (89%) yn hapus ar y cyfan (51% yn hapus iawn, 38% yn hapus). Dim ond 2% oedd yn anhapus.

Ffigur 3. Boddhad cyffredinol



J1. Yn gyffredinol, pa mor hapus neu anhapus wyt ti gyda dy ddarparwr?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459
Sylwch, oherwydd y broses o dalgrynnu, efallai na fydd y canrannau'n adio i 100%

1.18. Pan ofynnwyd i'r dysgwyr beth roeddent yn ei hoffi orau am eu darparwr, yr ateb cryfaf o bell ffordd oedd y staff. Soniodd un rhan o bump (19%) am staff cefnogol a gofalgar, tynnodd 13% sylw at staff gwybodus a diddorol, a nododd 9% bod y staff yn gyfeillgar a hawdd mynd atynt. Ymhlith y pethau cadarnhaol eraill a grybwyllwyd gan ddysgwyr, fel y dangosir yn Ffigur 4., roedd y gallu i ddatblygu sgiliau newydd (13%) ac awyrgylch groesawgar (9%).

Ffigur 4. Beth mae dysgwyr yn ei hoffi orau am eu darparwr



J2. Beth wyt ti'n ei hoffi orau am dy ddarparwr?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459. Sylwer bod hwn yn gwestiwn ateb testun rhydd, ac mae'r siart uchod yn dangos y themâu mwyaf cyffredin a godwyd gan yr ymatebwyr. Nid yw ymatebion o 4% neu lai wedi'u cynnwys yn y siart.

1.19. O ran agweddau y byddai dysgwyr yn hoffi eu gwella am eu darparwr, y prif themâu ar gyfer gwella oedd strwythur a chyflymder y cwrs (5%) a gwell cyfathrebu/gwrando gan staff (4%). Nid oedd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau (13%), neu roeddent yn ansicr (52%), fel y dangosir yn Ffigur 5.

Ffigur 5. Beth fyddai dysgwyr yn ei wella am eu darparwr



J3. Beth, os oes unrhyw beth, fyddet ti'n ei wella am dy ddarparwr?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459.
Sylwch fod hwn yn gwestiwn testun agored, ac mae'r siart uchod yn dangos y themâu mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr.
Nid yw ymatebion sy'n cyfrif am 1% neu lai wedi'u cynnwys yn y siart.

Canlyniadau'r arolwg hawdd ei ddeall

1.20. Ymhlith y rhai a gwblhaodd yr arolwg 'hawdd ei ddeall', dywedodd 93% eu bod yn hapus â'r safle lle maen nhw'n dysgu.


1.21. Dyma oedd rhai o'r ffactorau a grybwyllwyd amlaf gan ddysgwyr fel y pethau roeddent yn eu hoffi fwyaf am eu safle dysgu: athrawon yn barod i helpu ac yn ofalgar (18%), cyfeillgarwch a bod gyda ffrindiau (16%), ac amgylchedd croesawgar a diogel (15%).

1.22. Pan ofynnwyd iddynt beth ellid ei wella ynglŷn â'u safle dysgu, dywedodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr naill ai nad oeddent yn siŵr (44%) neu nad oedd dim byd y gellid ei wella (22%). Y gwelliannau a grybwyllwyd amlaf oedd newidiadau i strwythur a chyflymder y cwrs (5%), prisiau yn y ffreutur (4%), ac ansawdd ac amrywiaeth y bwyd yn y ffreutur (3%).

Profiad cyn dechrau

1.23. Roedd y dysgwyr o'r farn bod proses gynefino'r darparwyr a'u cyfathrebiad cyn y cwrs yn effeithiol ar y cyfan, a bod y dysgwyr wedi'u paratoi'n dda cyn dechrau eu cwrs. Cytunodd y rhan fwyaf o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg safonol (84%) bod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â ble i ddod o hyd i gymorth. Cytunodd cyfran debyg (86%) bod ganddynt ddigon o wybodaeth am eu cwrs, fel y dangosir yn Ffigur 6.

Ffigur 6. Mynediad y dysgwyr at wybodaeth cyn cychwyn




A1_X. Gan feddwl am dy ddysgu ar hyn o bryd, i ba raddau wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno…?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459
Sylwch, oherwydd y broses o dalgrynnu, efallai na fydd y canrannau'n adio i 100%

1.24. Roedd canlyniadau'r arolwg hawdd ei ddeall yn debyg, gydag 88% yn adrodd bod ganddynt yr holl wybodaeth roedd ei hangen arnynt cyn dechrau eu cwrs ac 84% yn dweud eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ddod o hyd i gymorth gan eu darparwr.

Cymorth i ddysgu, yr adnoddau dysgu a'r amgylchedd dysgu

1.25. Yn gyffredinol, roedd y dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, a bod yr amgylcheddau dysgu'n ffafriol i ddysgu. Roedd y rhan fwyaf helaeth (90%) o'r farn bod eu darparwr yn dda iawn neu'n eithaf da o ran sicrhau bod y lleoliadau lle maent yn dysgu yn addas ar gyfer eu hanghenion. Roedd cyfran debyg (88%) o'r farn bod arweiniad da iawn neu dda ynghylch lle i geisio cymorth dysgu, ac roedd pedair rhan o bump (82%) o'r farn bod y rheoli ymddygiad yn dda iawn neu'n dda.


Ffigur 7. Barn y dysgwyr am y cymorth gan y darparwyr



B1_X. Sut fyddet ti'n sgorio dy ddarparwr am…
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd ar gyfer y frawddeg gyntaf ac ail: 4,459
Sylfaen: Y dysgwyr AB ar gyfer y drydedd frawddeg: 3,461
Sylwch, oherwydd y broses o dalgrynnu, efallai na fydd y canrannau'n adio i 100%

1.26. Gofynnwyd i'r dysgwyr a oeddent wedi cael unrhyw gymorth ychwanegol i gefnogi eu dysgu (er enghraifft, newidiadau i ddyddiadau cyflwyno asesiadau, cymorth gydag ysgrifennu neu fathemateg, neu offer dysgu ychwanegol). Nid oedd angen cymorth ychwanegol ar y rhan fwyaf (60%), roedd tua thraean (32%) wedi cael cymorth, ac roedd 3% wedi gofyn am gymorth ond heb ei dderbyn, fel y dangosir yn Ffigur 8.


Ffigur 8. Dysgwyr sy'n derbyn cymorth



B2. Wyt ti wedi derbyn unrhyw gymorth ychwanegol i dy gefnogi gyda dy ddysgu / brentisiaeth?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459

1.27. Roedd y dysgwyr a gafodd gymorth wedi rhoi sgôr uchel iawn iddo. Mae Ffigur 9. Pa sgôr a roddwyd gan y dysgwyr i'r cymorth a gawsant isod yn dangos bod 96% wedi ei raddio fel un sy'n 'eithaf da' o leiaf, gan gynnwys 64% a roddodd y sgôr 'da iawn' iddo.

Ffigur 9. Pa sgôr a roddwyd gan y dysgwyr i'r cymorth a gawsant



B3. Yn gyffredinol, sut fyddet ti'n sgorio'r cymorth neu'r gefnogaeth ychwanegol rwyt ti wedi'i derbyn?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd a dderbyniodd gymorth ychwanegol: 1,476

Canlyniadau'r arolwg hawdd ei ddeall

1.28. Roedd mwyafrif helaeth y dysgwyr a gwblhaodd yr arolwg 'hawdd ei ddeall' yn bositif ynghylch yr enghreifftiau o gymorth a nodwyd. Dywedodd tua naw allan o bob deg, neu fwy, fod eu darparwr wedi sicrhau eu bod yn gwybod ble i fynd i gael cymorth ychwanegol, bod y lleoliadau dysgu'n addas ar gyfer eu hanghenion, a bod pobl ar eu cyrsiau'n ymddwyn yn briodol (94%, 93% ac 88% yn y drefn honno).

1.29. Dywedodd tri chwarter (75%) y dysgwyr eu bod wedi cael cymorth ychwanegol, a dywedodd un rhan o bump (21%) nad oeddent wedi cael dim. Dywedodd bron pawb (95%) o'r rhai a gafodd gymorth ei fod yn dda ac yn addas iddynt.


Addysgu, dysgu ac asesu

1.30. Pan roedd dysgwyr perthnasol wedi eu cyfateb yn fyw â data cyrsiau gan ddefnyddio eu rhif adnabod dysgwr (gwelwch yr Adroddiad Technegol i gael rhagor o wybodaeth), gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt am athrawon neu diwtoriaid (fel y dangosir yn Ffigur 10) mewn perthynas â hyd at bedwar o'u cyrsiau. Roedd y broses hon yn berthnasol i ddysgwyr Addysg Bellach (AB) llawn amser yn unig, oedd yn astudio nifer o brif gymwysterau, megis Lefelau A. I'r rhai oedd yn dilyn dysgu galwedigaethol ac yn astudio un prif gymhwyster yn unig, gofynnwyd un set o gwestiynau iddynt am eu cwrs.

1.31. I'r rhai oedd ag un prif gwrs yn unig, gofynnwyd y cwestiynau iddynt am eu hathrawon neu diwtoriaid yn gyffredinol. Mae hyn yn golygu bod ymatebwyr a oedd wedi'u cyfateb yn fyw â data cyrsiau ac yn astudio nifer o brif gymwysterau wedi cyfrannu hyd at bedwar ymateb i'r set hon o gwestiynau, tra bod y rhai nad oeddent wedi'u cysylltu â data cyrsiau wedi cyfrannu un ymateb yn unig.

1.32. Felly, mae'r canlyniadau'n seiliedig ar yr holl brofiadau o gyrsiau (ymhlith y rhai a ymatebodd), yn hytrach nag ar uned o ddysgwyr unigol. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n dangos lefelau uchel o fodlonrwydd gyda'r athrawon a'r tiwtoriaid; ar gyfer pob mesur ac eithrio un (cyflwyno'r cwrs mewn ffordd sy'n cadw eich diddordeb – 85%), roedd o leiaf naw allan o bob deg (90%) o brofiadau ar gyrsiau wedi eu graddio fel rhai da iawn neu eithaf da, fel y dangosir yn Ffigur 10.

Ffigur 10. Sgorau dysgwyr ar gyfer yr addysgu a'r asesiad




C1_X. Sut fyddet ti'n sgorio dy diwtoriaid ac athrawon am…
Y sylfaen: Y dysgwyr i gyd ar gyrsiau: 5,402. Gofynnwyd y cwestiynau hyn ar gyfer pob cwrs; felly, mae gan rai ymatebwyr unigol atebion lluosog.
Gofynnwyd y drydedd frawddeg i ddysgwyr Addysg Bellach (AB) a Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG): 5,047

Canlyniadau'r arolwg hawdd ei ddeall

1.33. Gofynnwyd cwestiynau tebyg i ddysgwyr a atebodd yr arolwg hawdd ei ddeall ynglŷn ag ansawdd y tiwtoriaid a'r athrawon. Gofynnwyd i ddysgwyr nodi a oedd yr arferion penodol hyn sy'n ymwneud ag ansawdd addysgu'n digwydd, gan feddwl am eu hathrawon neu eu tiwtoriaid yn gyffredinol, yn hytrach nag mewn cysylltiad â chwrs penodol.

1.34. Dywedodd naw allan o bob deg dysgwr, neu fwy, fod pob un o'r arferion addysgu a restrwyd wedi digwydd, fel y dangosir yn Ffigur 11 isod.

Ffigur 11 Sgorau dysgwyr yr arolwg hawdd ei ddeall am yr addysgu a'r asesu




C1_X. Ydy dy athrawon…
Y sylfaen: Y dysgwyr i gyd ar gwrs a atebodd yr arolwg hawdd ei ddeall: 338
Y 6ed frawddeg, a ofynnwyd i'r dysgwyr AB a dysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned a atebodd yr arolwg hawdd ei ddeall: 292

Y Gymraeg

1.35. Adroddodd y rhan fwyaf o ddysgwyr fod ganddynt allu cyfyngedig yn yr iaith Gymraeg, a dim ond tua un o bob saith (15%) a ddisgrifiodd eu hunain fel rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn hyderus (11%) neu sy'n gallu siarad am amrywiaeth eang o bynciau (4%). Dangosir dadansoddiad llawn o allu'r dysgwyr yn yr iaith Gymraeg, yn ôl eu hunan-asesiad, yn Ffigur 12.isod.


Ffigur 12. Gallu'r dysgwyr yn y Gymraeg



D1. Sut fyddet ti'n disgrifio dy allu yn y Gymraeg?
Y sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459

1.36. Pan ofynnwyd iddynt ym mha iaith y byddai'n well ganddynt ddysgu, atebodd y rhan fwyaf o ddysgwyr (86%) y Saesneg yn unig. Roedd un y cant eisiau dysgu yn Gymraeg yn unig, ac roedd 12% yn ffafrio cymysgedd.

Ffigur 13. Dewis iaith y dysgwyr




D2. Ym mha iaith oeddet ti eisiau gwneud dy ddysgu?
Y sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459

1.37. O'r rhai a oedd eisiau dysgu yn Saesneg yn unig, roedd 93% yn gwneud hynny; o'r rhai a oedd eisiau dysgu yn Gymraeg yn unig, roedd 53% yn gwneud hynny; ac o'r rhai a oedd eisiau dysgu mewn cymysgedd o'r ddwy iaith, roedd 54% yn gwneud hynny.

1.38. O'r dysgwyr a oedd eisiau dysgu rhywfaint yn Gymraeg, cafodd 76% gyfle i wneud eu dysgu i gyd, neu ran ohono, yn Gymraeg.

1.39. Cytunodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr (63%) fod y darparwyr yn hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg. Cytunodd 25% yn gryf.

Ffigur 14. Canfyddiadau'r dysgwyr am hyrwyddiad y darparwyr o'r iaith Gymraeg




D5. I ba raddau wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno bod dy ddarparwr yn hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459
Sylwch, oherwydd y broses o dalgrynnu, efallai na fydd y canrannau'n adio i 100%

1.40. Yn ogystal, dywedodd ychydig llai na hanner y dysgwyr (45%) eu bod yn gwybod i ble i fynd i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

Canlyniadau'r arolwg hawdd ei ddeall

1.41. Ymhlith y dysgwyr a ymatebodd i'r arolwg hawdd ei ddeall, roedd 18% yn gallu deall rhai geiriau syml yn Gymraeg, roedd 32% yn gallu dweud neu arwyddo rhai geiriau yn Gymraeg, roedd 13% yn gallu siarad am bethau syml pob dydd yn Gymraeg, roedd 4% yn gallu siarad am eu dysgu, roedd 4% yn gallu siarad am lawer o bethau yn Gymraeg, ac roedd 9% yn gallu siarad am unrhyw beth yr oeddent ei eisiau yn Gymraeg, fel y dangosir yn Ffigur *15* isod.

Ffigur 15. Gallu ymatebwyr yr arolwg hawdd ei ddeall yn yr iaith Gymraeg (nodir y lefel uchaf)



D1. Sut fyddet ti'n disgrifio dy allu yn y Gymraeg? Nodwch: Roedd y cwestiwn hwn yn un cod niferus – mae'r siart yn dangos y gallu uchaf.
Y sylfaen: Y dysgwyr i gyd a atebodd yr arolwg hawdd ei ddeall: 338

1.42. O ran dewis iaith ar gyfer eu dysgu, dywedodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr eu bod eisiau gwneud eu dysgu yn Saesneg yn unig (84%); roedd tua un o bob saith (14%) eisiau astudio mewn cyfuniad o Gymraeg a Saesneg ac roedd un y cant eisiau astudio yn Gymraeg yn unig.


1.43. Roedd mwy na naw o bob deg (93%) o ddysgwyr oedd eisiau dysgu yn Saesneg yn gwneud hynny, ac roedd cyfran debyg (61%) a oedd eisiau dysgu mewn o leiaf rhywfaint o Gymraeg yn gwneud hynny.

1.44. Roedd dwy ran o dair (66%) o'r dysgwyr a gwblhaodd yr arolwg hawdd ei ddeall o'r farn bod eu darparwr yn helpu pobl i ddysgu Cymraeg os oeddent yn dymuno gwneud hynny ac roedd 58% yn gwybod i bwy i ofyn a oeddent am wella eu Cymraeg.

Trefniant a Rheoli

1.45. Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr o'r farn bod eu hyfforddiant wedi'i drefnu'n dda. Roedd pedwar rhan o bump (84%) yn cytuno bod eu darparwr wedi gwneud hyn yn dda, gan gynnwys 42% a oedd yn cytuno'n gryf, fel y dangosir yn **Error! Reference source not found.**

Ffigur 16. Barn y dysgwyr ynglŷn ag a yw eu dysgu wedi'i drefnu'n dda



E1. I ba raddau wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno bod dy ddarparwr yn trefnu dy ddysgu / hyfforddiant yn dda?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459

Canlyniadau'r arolwg hawdd ei ddeall


1.46. Er mwyn asesu a oedd darparwyr wedi trefnu cyrsiau'n dda, gofynnwyd i ddysgwyr a atebodd yr arolwg hawdd ei ddeall roi rhai enghreifftiau o sut y gallai darparwyr ddangos trefniadaeth a rheolaeth dda ar ddysgu a gofynnwyd iddynt a oedd eu darparwr wedi gwneud y mathau hynny o bethau. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys dweud wrth ddysgwyr am unrhyw newidiadau a allai ddigwydd, sicrhau bod gan ddysgwyr y pethau sydd eu hangen arnynt i wneud eu dysgu, sicrhau bod gan ddysgwyr ddigon o amser i wneud eu gwaith a dechrau a gorffen gwersi'n brydlon. Ar y cyfan, dywedodd bron i naw o bob deg (89%) fod eu darparwr wedi gwneud y mathau hyn o arferion.

Lles ac lechyd Meddwl

1.47. Dywedodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr (83%) y byddent yn gwybod i ble i fynd am arweiniad neu gymorth gyda'u lles a'u hiechyd meddwl pe byddent ei angen. Roedd chwarter (25%) y dysgwyr wedi derbyn cymorth ar gyfer eu lles a'u hiechyd meddwl, tra bod 2% wedi gofyn am gymorth ond heb ei dderbyn eto.

1.48. O'r rhai a oedd wedi derbyn cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl, roedd tair rhan o bump (59%) yn ei ystyried yn ddefnyddiol iawn, ac roedd 30% arall yn ei ystyried yn eithaf defnyddiol. Roedd lleiafrif bach (3%) yn ei ystyried yn ddi-fudd.


Ffigur 16. Pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth iechyd meddwl i ddysgwyr



F3. Faint o help oedd yr arweiniad neu'r cymorth a gest ti?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd a dderbyniodd arweiniad neu gymorth: 1,357

1.49. Dywedodd bron i hanner (49%) y dysgwyr a gafodd gymorth ar gyfer lles ac iechyd meddwl eu bod wedi cael y cymorth hwn yn gyflym iawn, a dywedodd 38% arall eu bod wedi ei gael yn eithaf cyflym. Dim ond 8% a deimlai nad oeddent wedi derbyn cymorth yn gyflym.

Ffigur 17. Pa mor gyflym y derbyniodd y dysgwyr gymorth ar gyfer Iechyd Meddwl



F4. Pa mor gyflym wnest ti dderbyn y cymorth ar ôl gofyn amdano?
Sylfaen: Y dysgwyr i gyd a dderbyniodd arweiniad neu gymorth:1,357

Canlyniadau'r arolwg hawdd ei ddeall

1.50. Dywedodd mwyafrif mawr o'r dysgwyr a gwblhaodd yr arolwg hawdd ei ddeall (92%) eu bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth gyda'u lles neu eu hiechyd meddwl. Roedd eu hanner (50%) wedi cael cymorth; o'r rhain, dywedodd 72% ei fod yn ddefnyddiol, dywedodd 18% ei fod yn iawn, a dywedodd 2% nad oedd yn ddefnyddiol iawn (nid oedd 8% yn siŵr).


1.51. O ran pa mor amserol oedd y cymorth a gafwyd, dywedodd dwy ran o dair (66%) eu bod wedi cael cymorth yn gyflym iawn, dywedodd 16% eu bod wedi gorfod aros ychydig, a dywedodd 2% na chafwyd y cymorth yn gyflym iawn (nid oedd 15% yn siŵr).

Diogelwch a Pharch

1.52. Roedd lefelau uchel iawn o'r dysgwyr yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu trin yn deg, ac yn cael eu trin â pharch. Mae

1.53. Ffigur *18*. yn dangos, ar gyfer pob brawddeg, bod y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi cytuno'n gryf, a bod o leiaf bedair rhan o bump wedi cytuno'n gyffredinol. Fodd bynnag, roedd bron i un o bob deg dysgwr (9%) naill ai'n anghytuno eu bod yn gwybod i ble i fynd (neu i bwy i ofyn) os nad oedden nhw'n teimlo'n ddiogel, neu'n nodi nad oeddent yn gwybod.

Ffigur 18. Barn y dysgwyr am ddiogelwch a pharch



G1_X. I ba raddau wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno…
Y sylfaen ar gyfer y brawddegau 'Rydw i'n cael fy nhrin yn deg gan staff' a 'Rydw i'n cael fy nhrin â pharch gan staff': Y dysgwyr i gyd: 4,459
Y sylfaen ar gyfer y brawddegau: 'Rydw i'n teimlo'n ddiogel ar safle fy narparwr; 'Rydw i'n gwybod lle i fynd (neu i bwy i ofyn) os na fyddaf yn teimlo'n ddiogel' a 'Mae fy narparwr yn annog dysgwyr i barchu ei gilydd': (Y dysgwyr DOG ac AB i gyd: 4,104)


Canlyniadau'r arolwg hawdd ei ddeall

1.54. Gofynnwyd i'r rhai a gwblhaodd yr arolwg hawdd ei ddeall am agweddau tebyg yn ymwneud â diogelwch a pharch. Dywedodd y mwyafrif helaeth (94%) eu bod yn teimlo'n ddiogel, dywedodd 93% eu bod yn gwybod ble i fynd os nad oedden nhw'n teimlo'n ddiogel, roedd 92% yn teimlo bod y staff yn eu trin yn deg, a dywedodd 94% fod y safle lle maen nhw'n dysgu'n dweud wrth bobl ei bod hi'n bwysig parchu ei gilydd.

Llais y dysgwr

1.55. Yn gyffredinol, dywedodd y dysgwyr eu bod yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed, er bod y broses adborth (lle mae'r darparwr yn egluro'r camau a gymerwyd mewn ymateb i adborth gan y dysgwyr) ychydig yn llai cadarn na'r cyfle a roddir i roi'r adborth hwnnw. Fel y dangosir yn Ffigur 19. isod, cytunodd 83% o ddysgwyr eu bod yn cael cyfle i rannu eu hadborth (cytunodd 46% yn gryf), a chytunodd 81% bod y safbwyntiau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan staff (cytunodd 45% yn gryf). Er bod y gyfran yn dal i fod yn fwyafrif sylweddol, roedd cyfran is yn cytuno bod eu darparwr yn egluro beth sy'n digwydd o ganlyniad i'r safbwyntiau a'r syniadau a dderbynnir gan ddysgwyr (cytunodd 75%, gan gynnwys 41% a gytunodd yn gryf).

Ffigur 19. Rhannu sylwadau a phrofiadau




H1_X. I ba raddau wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno…
Y sylfaen: Y dysgwyr i gyd: 4,459
Sylwch, oherwydd y broses o dalgrynnu, efallai na fydd y canrannau'n adio i 100%

1.56. Roedd y dysgwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u cynnydd a datblygiad eu sgiliau, ond mae'n ymddangos y gellid gwella'r arweiniad a ddarperir ar y camau nesaf a pharhau i ddysgu (er bod yr ymateb yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan).

1.57. Cytunodd naw allan o bob deg (90%) eu bod yn dysgu sgiliau defnyddiol ar gyfer y dyfodol, a chytunodd 88% eu bod yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Er bod yr ymateb yn parhau i fod yn gadarnhaol, roedd cyfran ychydig yn is, sef 83%, yn cytuno eu bod wedi cael arweiniad defnyddiol ynglŷn â'r camau nesaf (nodwch, dim ond i ddysgwyr addysg bellach a phrentisiaid y gofynnwyd y cwestiwn hwn). Ymhlith dysgwyr ar gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned, cytunodd tua thri chwarter (74%) ei bod hi'n glir sut i barhau i ddysgu ar ôl gorffen eu cwrs.

Ffigur 20. Cynnydd y dysgwyr a'r camau nesaf



I1_X. I ba raddau wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno …
Y Sylfaen: Y frawddeg gyntaf a'r ail: Y dysgwyr i gyd: 4,459
Y drydedd frawddeg: Y dysgwyr AB ac APP i gyd: 3,816
Y bedwaredd frawddeg: Y dysgwyr DOG i gyd: 643
Sylwch, oherwydd y broses o dalgrynnu, efallai na fydd y canrannau'n adio i 100%

Canlyniadau'r arolwg hawdd ei ddeall

1.58. Dywedodd y rhan fwyaf (86%) o'r dysgwyr a gwblhaodd yr arolwg hawdd ei ddeall eu bod yn cael cyfle i rannu syniadau gyda'u darparwr, a mynegi eu barn am eu profiadau dysgu. Roedd cyfran debyg (85%) o'r farn bod eu syniadau a'u barn yn bwysig i'w darparwr. Dywedodd tua thri chwarter y dysgwyr (73%) fod eu darparwr wedi dweud wrthynt beth roedden nhw wedi'i wneud ar ôl gwrando ar yr adborth hwn.

1.59. O ran dilyniant a chamau nesaf, roedd 93% o'r dysgwyr a gwblhaodd yr arolwg hawdd ei ddeall yn fodlon ar y cynnydd roeddent yn ei wneud yn eu dysgu; roedd yr un gyfran (93%) hefyd o'r farn eu bod yn dysgu sgiliau a fyddai'n eu helpu yn y dyfodol. Roedd cyfran fawr o'r dysgwyr hyn hefyd yn teimlo bod eu darparwr wedi cynnig cymorth i'w helpu i benderfynu beth i'w wneud ar ôl cwblhau eu dysgu, a'u cynghori sut i barhau i ddysgu ar ôl i'w cwrs ddod i ben (91% ac 89% yn y drefn honno).

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government